

Newyddlen Menter y Tŵr



Y TŴR
PWLLHELI

Chwefror 2025

Cipolwg ar arwydd newydd Y Tŵr

Tra bod gwaith malu a trwsio yn digwydd ar un llaw yn Y Tŵr, ar y llaw arall mae datblygiadau creadigol ar y gweill i ddatblygu cynllun a delwedd yr adeilad.

Mae'r arwydd swing ar gyfer blaen yr adeilad yn barod. Braf oedd gallu comisiynu gwneuthurwr arwyddion traddodiadol a talentog "Momo" o Rachub i gynllunio a phaentio gyda llaw. Mae Tomos Jones yn darlunio yn fanwl ac yn paentio pob arwydd gyda llaw gan sicrhau fod pob darn yn unigryw ac wedi ei deilwrio ar gyfer anghenion y cwsmer. Gan sicrhau safon uchel a gyda manylder cywrain mae ei arwyddion yn diffinio delwedd busnesau ac yn ychwanegu at steil lleoliadau. Dywedodd Tomos "Roedd hi'n bleser darparu arwydd swing ar gyfer Y Tŵr sydd yn adeilad mor eiconig. Dwi'n ymwybodol iawn o bwysigrwydd arwydd o'r fath i adeilad fel Y Tŵr ac yn gwerthfawrogi y cyfle i gefnogi gwaith caled Menter Y Tŵr." Gyda'i gefndir creadigol eang sy'n cyfuno cerflunwaith, ffotograffiaeth a graffiti darganfu Tomos angerdd dwfn am greu arwyddion a'r technegau traddodiadol. Mae'n arbenigo mewn llythrennu, gwaith saer, a gwaith celf cyhoeddus. Mae'n gweithio'n agos gyda'r cleient ac yn darparu arwyddion sydd yn ddarnau o gelf. www.momosigns.co.uk



Tomos 'Momo' wrth ei waith



Defnyddiwyd Derw Cymreig, haenau alwminiwm a gorffenwyd y manylion mewn deilen aur.

Yn y newyddlen hon

Diweddariad ar yr adeilad.

Dewis lliw i'r Tŵr!

Raffl Y Tŵr ar daith.

Diweddariad o'r gwaith ar yr adeilad

Roedd Ionawr yn fis o chwalu. Cafodd yr hen estyniad yn y cefn ei ddymchwel a bu gwaith clirio mawr. Gwelwyd altrad mawr gyda goleuni a haul Chwefror. Tynnwyd y ffenestri dormer yn y cefn, simdde diangen, ac allanfa dan beryglus. Mae'r gwaith o adnewyddu'r ffenestri dormer ar flaen yr adeilad wedi cychwyn.


Cliriwyd mwy ar du mewn yr adeilad. Mae deunyddiau bellach wedi cyrraedd yn barod ar gyfer y gwaith adnewyddu ac adeiladu ym mis Mawrth. Diolch i'r adeiladwyr ac hefyd i'r gwirfoddolwyr sydd wedi rhoi oriau o'u amser i'r fenter.



Tynnu simdde o gefn yr adeilad



Ffenestri dormer wedi'i tynnu o gefn yr adeilad



Symudwyd yr hen ddihangfa dân beryglus.



Adnewyddu ffenestri dormer ar flaen yr adeilad



Byrddau inswleiddio yn barod i'w ffitio

Dewis Lliw i'r Adeilad



Rydym angen eich help i wneud gwaith pwysig iawn sef dewis lliw i flaen yr adeilad. Mae'r pensaer wedi awgrymu 4 lliw. Ewch i'r wefan www.ytwr.cymru i weld lluniau manwl o'r lliwiau a gellir pleidleisio drwy ddilyn y linc ar y wefan neu ar ein gwefannau cymdeithasol.



T Trawsnewid Trefi
Transforming Towns


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Raffl ar daith!

Bu raffl ar daith ogwmpas cwmnïau a busnesau Pwllheli i gefnogi Menter y Tŵr.

Yn ystod mis Ionawr a Chwefror bu'r raffl y Gaeaf yng Nghaffi Largo a Salon Karalyns. Tynnwyd y raffl honno ac mae'r gwobrau wedi eu dosbarthu.

Mae bellach yn amser cynnal raffl o'r newydd ar gyfer y Gwanwyn ac rydym yn chwilio am siopau a busnesau eraill yn y dref sydd yn fodlon gwerthu'r raffl fel y gwnaeth Caffi Largo a Karalyns. Cysylltwch a ni os oes gennych gaffi, siop neu swyddfa ac yn fodlon rhoi cartref i'r raffl neu yn awyddus i gyfrannu gwobr. Rydym yn awyddus i gydweithio gyda cwmnïau lleol a hyrwyddo ein gilydd. Fel arwydd o ddiolch am gefnogi'r raffl byddwn yn cynnwys llun yn ein newyddlen.



Kim Warren, caffi Largo

Gwirfoddoli

Os hoffech wirfoddoli gyda Menter Y Tŵr mae digon o gyfleoedd i helpu a byddem yn ddiolchgar dros ben. Mae criw yn clirio yn rheolaidd, ac mae angen trefnu gweithgareddau codi arian amrywiol. Cysylltwch á ni i drafod ymhellach drwy yrru neges i ytwrpwllheli@gmail.com neu drwy ein cyfryngau cymdeithasol.

Criw Y Tŵr x

www.ytwr.cymru

Diolch i Gareth Jenkins am ddefnydd o'i luniau www.garethjenkinsphotography.com